# Digarbon Rownd 3

## Cronfa Ddatgarboneiddio Addysg Drydyddol yng Nghymru

## Datganiad Swyddog Awdurdodi

Mae'r swyddog awdurdodi yn unigolyn o'r sefydliad cymwys sydd â'r awdurdod i gymeradwyo ac arwyddo dogfennau swyddogol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrosiect Digarbon. Gall hyn fod yn swyddog adran 151 neu swyddog uchel ei statws tebyg sydd yn rhan o strwythur llywodraethu'r prosiect. Rhaid i'r unigolyn sy'n arwyddo'r datganiad isod fod yr un person sydd wedi'i restru fel y swyddog awdurdodi ar gais Digarbon. Ni fydd Salix yn dechrau gwerthuso'r cais nes bydd y datganiad hwn wedi'i gyflwyno.

Fel y swyddog awdurdodi penodedig, gallaf gadarnhau bod y datganiadau canlynol yn wir:

- Rwy'n cadarnhau bod y swyddog awdurdodi wedi cymeradwyo cyflwyno'r cais hwn i Digarbon ar ran ein sefydliad.
- Rwyf wedi darllen nodiadau cyfarwyddyd Digarbon Rownd 3 ac yn cytuno i dderbyn y cynnwys.
- Rwy'n cadarnhau y bydd aelod o'r tîm ac, os bydd angen, ymgynghorydd ar gael i ymateb i unrhyw ymholiadau gan Salix o fewn tri diwrnod gwaith drwy gydol y broses asesu, ac rwy'n deall y gallai methu ag ymateb o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt arwain at ddileu cais ein sefydliad o'r broses asesu.
- Rwy'n cadarnhau bod y corff sector cyhoeddus yn cytuno i'r gyfradd llog o 2.45% fel y nodir yn y nodiadau cyfarwyddyd.
- Rwy'n cefnogi'r amserlen amorteiddio benthyciad sy'n nodi sut y bydd y benthyciad, gyda llog, yn cael ei ad-dalu gan y sefydliad.
- Rwy'n ymwybodol, unwaith y cytunir ar gyfanswm gwerth y benthyciad, fod angen i unrhyw gostau ychwanegol gael eu cefnogi'n uniongyrchol gan y sefydliad cymwys.
- Mae'r prosiect yn bodloni'r meini prawf "ychwanegol" a nodir yn nodiadau cyfarwyddyd y cais.
- Rydym wedi neu byddwn yn dilyn y llwybr caffael y cytunwyd arno ar gyfer y prosiect hwn yn unol ag unrhyw bolisi caffael mewnol ar gyfer ein sefydliad neu'r corff cymwys perthnasol (lle bo'n berthnasol).
- Rwy'n derbyn y bydd manylion ein cais yn cael eu rhannu a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) wedi hynny.

Llofnodwyd gan y swyddog awdurdodi yn y corff sector cyhoeddus cymwys:

Llofnod: *

Enw mewn priflythrennau: *

Teitl swydd: *

Ar ran (sefydliad): *

Teitl y cais: *

Dyddiad llofnodi: *